



Cytundeb cartref-ysgol Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin 2019-2020

Bwriad y cytundeb hwn yw hybu cydweithio rhyngddom ni fel ysgol a chithau fel rhieni. Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn ymfalchïo yn ein perthynas agos ac adeiladol gyda rhieni, disgyblion a'r athrawon. Drwy'r cytundeb hwn gall pob un ohonom ymroi i weithio mewn partneriaeth. Wrth lofnodi'r cytundeb hyderwn y byddwn yn ffurfio cyswllt effeithiol rhwng y cartref a'r ysgol a fydd yn arwain at well dealltwriaeth o'n cyfrifoldebau, ac y bydd eich plentyn yn y dyfodol yn elwa o'r addewidion a wnaethpwyd ar y cyd gennym.

Prif nod Bro Myrddin yw sefydlu cymuned weithgar Gymraeg ei hiaith a'n diwylliant sy'n seiliedig ar barch a hunanddisgyblaeth. Cymraeg yw prif iaith yr ysgol a disgwylir i bawb barchu hyn a defnyddio'r iaith ar bob achlysur yn yr ysgol. Disgwylir i ddisgyblion siarad Cymraeg gyda'i gilydd tu-allan i'r dosbarth er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt ddatblygu eu sgiliau ieithyddol sy'n hanfodol er mwyn sicrhau cynnydd ac i gyfranogi at weithgareddau allgyrsiol yr ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. Disgwylir i rieni sy'n anfon eu plant i Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin fod yn frwd i'w plant dderbyn eu haddysg yn y Gymraeg a bod yn rhugl ynddi. Mae agwedd gadarnhaol rhieni a disgyblion tuag at y Gymraeg yn hanfodol bwysig wrth sicrhau cyrhaeddiad academiaidd disgyblion a llwyddiant yr ysgol.

Fel rhiant/gwarcheidwad fe wnawn ein gorau i sicrhau ein bod ni'n:

- dangos parch at staff yr ysgol gan ddangos cefnogaeth ac ymrwymiad i nodau, ethos a rheolau'r ysgol
- hybu lle'r iaith Gymraeg ym mywyd ein plentyn
- ymddiddori yng ngwaith ysgol ein plentyn, gan ddiogelu cyfle iddo/iddi gyflawni gwaith cartref yn effeithiol ac i safon uchel
- cefnogi ymdrechion yr ysgol i gynnal safonau ymddygiad a gwisg gan sicrhau bod fy mhleintyn yn gwisgo'r wisg ysgol swyddogol
- rhoi gwybod i'r ysgol os oes problemau fyddai'n gallu effeithio ar waith neu ymddygiad ein plentyn gan weithio ar y cyd gyda'r ysgol er mwyn goresgyn y problemau hyn
- peidio cymryd gwyliau yn ystod tymor yr ysgol (rydym yn deall na fydd yr ysgol yn medru awdurdodi absenoldebau o'r fath)
- sicrhau bod safonau presenoldeb a phrydlondeb ein plentyn mor uchel â phosibl gan hysbysu'r ysgol am unrhyw absenoldeb cyn 8:30yb
- danfon llythyr o eglurhad neu nodyn yn y trefnydd personol ar y diwrnod mae y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol
- sicrhau eich bod yn sylweddoli nad yw'r rhesymau canlynol yn resymau digonol i golli'r ysgol: apwyntiad deintydd neu feddyg (oni bai ei fod yn argyfwng neu'n rhan o driniaeth hirdymor); helpu gartref; adloniant / siopa / gweithgaredd hamdden
- gwirio'r Trefnydd Personol a'i lofnodi'n wythnosol
- mynychu cyfarfodydd rhieni er mwyn trafod a chefnogi cynnydd ein plentyn
- annog eich plentyn i gymryd mantais o'r cyfleoedd niferus i ymestyn gorwelion personol ac elwa o'r profiadau allgyrsiol amrywiol sy'n cael eu cynnig
- defnyddio gweithrefn gwyno'r ysgol wrth wneud cwyn am yr ysgol neu aelod o staff. Ni fyddwn yn trafod unrhyw faterion ar gyfryngau cymdeithasol.

Fel disgybl fe wnaf pob ymdrech fel aelod o gymuned yr ysgol i sicrhau fy mod yn:

- gwrtais gan ddangos parch tuag at staff a chyd-ddisgyblion gan gofio bod fy ymddygiad yn medru effeithio ar gynnydd eraill
- siarad yr iaith Gymraeg ym mhob sefyllfa bosibl y tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth gan ymfalchïo yn y ffaith fy mod yn arddel ac yn defnyddio'r iaith

- mynychu'r ysgol yn brydlon bob dydd gan sicrhau lefel presenoldeb uchel
- sicrhau bod yr holl offer sydd eu hangen ar gyfer gwersi'r dydd gennyf gan gynnwys bag addas, fy nhrefnydd personol, offer, cas pensiliau a gwisg addysg gorfforol
- cwblhau, yn brydlon, fy holl waith dosbarth, gwaith cwrs a'm gwaith cartref
- gwneud ymdrech dda i baratoi'n drylwyr ar gyfer arholiadau mewnol ac allanol
- cymryd mantais o'r holl gyfleoedd a gynigir sy'n ymestyn fy ngorwelion ac sy'n cynnig profiadau allgyrsiol newydd
- gofalu am amgylchfyd yr ysgol a chynorthwyo i gadw'r ysgol yn lân a heb sbwriel
- cadw rheolau'r ysgol, gan gynnwys rhai gwisg ysgol, rheolau yn ymwneud â gemwaith, colur, gwm cnoi, defnydd o ffonau symudol, dyfeisiadau TGCh, defnydd o'r we ac offer yr ysgol
- aros o fewn ffiniau'r ysgol yn ystod y dydd a pharchu trefniadau egwyl a chinio
- cofio cadw holl reolau'r ysgol ar y bws ysgol gan sicrhau taith ddiogel a dymunol i eraill
- hysbysu aelod o staff neu ddisgybl yn y chweched dosbarth os oes gennyf broblem neu ofid ynglŷn â bywyd ysgol

Byddwn, fel ysgol ac fel staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ein bod ni'n:

- dangos parch at bob disgybl a theulu gan ddarparu bywyd ysgol diogel a hapus i'ch plentyn gan sicrhau cyfle cyfartal i bawb
- sicrhau bod eich plentyn yn derbyn cymorth ac anogaeth gan Diwtor dosbarth, athrawon, anogwr dysgu, mentor neu bennaeth blwyddyn
- sicrhau trwy ein gweithdrefnau a pholisïau ysgol ein bod ni'n hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol gan gynnwys cynhwysiant, cyfle cyfartal, trefniadau gwrth fwllian a threfniadau diogelu plant
- gofalu am ddiogelwch, lles a hapusrwydd eich plentyn
- datblygu dysgwyr annibynnol gan gyflwyno gwersi sy'n amlygu dysgu da sy'n hybu sgiliau llythrennedd a rhifedd
- tracio cynnydd eich plentyn gan osod targedau heriol
- darparu cwricwlwm cytbwys a fydd yn cyfarfod ag anghenion eich plentyn
- paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau a phroffion mewnol ac allanol
- mynnu safonau ymddygiad uchel
- cynnig adborth i ddisgyblion drwy asesu a marcio gwaith yn rheolaidd a gosod gwaith cartref priodol yn ôl polisïau'r ysgol
- cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol
- rhoi gwybod i chi am gynnydd eich plentyn ac am faterion yr ysgol yn gyffredinol
- cynnig cyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd ynglŷn ag addysg bellach, addysg uwch a gyrfa
- darparu gwybodaeth yn brydlon dros y ffôn, drwy e-bost, nodyn yn y Trefnydd Personol, llythyru neu drwy gyfarfod wyneb yn wyneb am broblemau ynghylch cyrhaeddiad neu ymddygiad eich plentyn
- ymdrin ag unrhyw bryderon neu gwynion mewn modd sensitif
- parchu disgyblion fel unigolion gan eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau i'r gymuned gyfan
- cynnig cyfleoedd drwy waith y Corff Llywodraethol, y Cyngor Ysgol a'r Cymdeithas Rieni ac Athrawon bod llais y disgybl a rhieni yn cyfrannu at lwyddiant yr ysgol a'i disgyblion.

Defnydd Cyfrifol / Rheolau E-Ddiogelwch – Cytundeb Disgybl

- Byddaf yn defnyddio systemau TGCh yn yr ysgol, gan gynnwys y rhyngwrwyd, e-bost, fideo digidol, technolegau symudol, ac ati, at ddibenion gwaith ysgol yn unig;
- Ni fyddaf yn llawrlwytho neu osod meddalwedd ar dechnolegau'r ysgol;
- Byddaf yn mewngofnodi i rwydwaith neu lwyfan dysgu gan ddefnyddio fy enw defnyddiwr a chyfrinair personol yn unig;
- Byddaf yn cadw fy enw defnyddiwr a chyfrinair yn gwbl gyfrinachol;

- Byddaf yn defnyddio fy nghyfeiriad e-bost ysgol yn unig tra yn yr ysgol;
- Byddaf yn sicrhau bod pob cyfathrebu TGCh gyda disgyblion, athrawon ac eraill yn gyfrifol a synhwyrol;
- Byddaf yn cymryd cyfrifoldeb am fy ymddygiad wrth ddefnyddio'r rhyngwrdd. Mae hyn yn cynnwys yr adnoddau y byddaf yn cyrchu a'r iaith y byddaf yn defnyddio;
- Ni fyddaf yn fwriadol yn pori, llwytho i lawr, llwytho i fyny neu yn blaenyrru deunydd y gellid eu hystyried yn dramgwyddus neu'n anghyfreithlon. Os byddaf yn ddamweiniol yn darganfod unrhyw ddeunydd o'r fath byddaf yn cysylltu ar unwaith gydag aelod o staff;
- Ni fyddaf yn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol megis enw, rhif ffôn, neu gyfeiriad. Ni fyddaf yn trefnu i gwrdd â rhywun oni bai bod hyn yn rhan o brosiect ysgol a gymeradwywyd gan fy athro;
- Ni fyddaf yn tynnu llun disgyblion neu staff, os nad ydy hyn wedi cael ei gytuno ymlaen llaw, yn unol â pholisi ysgol. Ni fydd hawl i ddosbarthu unrhyw luniau y tu allan i rwydwaith yr ysgol heb ganiatâd;
- Byddaf yn sicrhau na fydd fy ngweithgaredd ar lein, yn yr ysgol a thu allan iddi, yn peri gofid i aelodau o staff, disgyblion ac eraill nac yn dod a gwarth arnynt hwy na'r ysgol;
- Byddaf yn cefnogi agwedd yr ysgol tuag at ddiogelwch ar lein ac ni fyddaf yn fwriadol yn llwytho neu ychwanegu delweddau, fideos, synau neu destunau y gellir gofidio neu ddigio unrhyw aelod o gymuned yr ysgol;
- Byddaf, bob amser, yn parchu hawlfraint a hawliau perchnogaeth ddeallusol gwaith eraill ar lein;
- Ni fyddaf yn mewngofnodi i unrhyw safweoedd megis Facebook neu ystafelloedd sgwrsio ac ati;
- Ni fyddaf yn ceisio osgoi system hidlo rhyngwrdd yr ysgol;
- Deallaf, os ydw i'n dymuno defnyddio offer personol megis ffonau (megis iPhone), dabledi (megis iPad) neu liniaduron yn yr ysgol, y bydd yn rhaid i fi gael caniatâd Pennaeth Blwyddyn neu aelod o'r Uwch Dîm Arwain. Hefyd bydd yn rhaid i fi ddilyn rheolau'r ysgol;
- Deallaf mai fy nghyfrifoldeb i, os ydw i'n dod ag offer personol i'r ysgol, yw i sicrhau diogelwch fy offer yn yr ysgol. Ni fydd yr ysgol yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am ddifrod neu golled.
- Deallaf fod gan yr ysgol hawl i fonitro a chadw cofnod o fy nefnydd o'r rhyngwrdd ac unrhyw dechnolegau cysylltiedig a byddant ar gael i fy athrawon eu gweld;
- Deallaf fod y rheolau hyn ar gael er mwyn fy niogelu ac os byddaf yn torri rheol y bydd system disgyblu'r ysgol yn cael ei weithredu a gellir cysylltu gyda fy rhieni neu ofalwyr.

Ffurflen ganiatâd i alluogi dysgwyr i gael mynediad at wasanaethau ychwanegol Hwb

Mae platfform Hwb yn rhoi mynediad i'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru at ystod eang o offer ac adnoddau digidol, dwyieithog sy'n cael eu hariannu'n ganolog, i gefnogi'r broses o drawsnewid arferion yn yr ystafell ddosbarth yn ddigidol. Llywodraeth Cymru sy'n rheoli ac yn gweithredu platfform Hwb. Mae'n rhaid i'r holl ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru gael manylion mewngofnodi diogel ar gyfer platfform Hwb. Mae hyn oherwydd y bydd y profion darllen a rhifedd gorfodol, sy'n cael eu gwneud ar bapur ar hyn o bryd, yn symud ar-lein, a bydd yn rhaid i bob disgybl eu cwblhau ar y platfform. Er mwyn rhoi manylion mewngofnodi diogel i chi, bydd yr ysgol yn anfon gwybodaeth sylfaenol at Lywodraeth Cymru. Bydd y manylion mewngofnodi yn caniatáu i chi gwblhau'r asesiadau gorfodol ar-lein, sy'n cael eu galw'n 'asesiadau personol'.

I gael rhagor o wybodaeth am blatfform Hwb a sut mae gwybodaeth amdanoch chi yn cael ei ddefnyddio, ewch i <https://hwb.gov.wales/privacy>. I gael rhagor o wybodaeth am yr asesiadau personol ar-lein, ewch i <http://learning.gov.wales/resources/collections/national-reading-and-numeracytests?lang=en#collection-2>

Gwasanaethau ychwanegol

Os byddwch chi'n cytuno i hynny, gall Llywodraeth Cymru roi mynediad i chi at amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol sy'n cael eu darparu gan sefydliadau eraill, drwy Hwb. Mae'r rhain yn cynnwys amgylcheddau dysgu ar-lein fel Dosbarthiadau Hwb, Microsoft Office 365, Google for Education, ac offer ac adnoddau

addysgol perthnasol eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwasanaethau ychwanegol hyn ar gael i'ch helpu chi i gael mynediad at adnoddau addysgol. Mae'r gwasanaethau ychwanegol hyn yn cael eu hariannu'n ganolog, ac nid yw'n costio i chi na'ch ysgol gael mynediad atynt na'u defnyddio.

Dim ond os byddwch chi'n llofnodi'r ffurflen ychwanegol i ddangos eich bod yn cytuno y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y cewch fynediad at y gwasanaethau ychwanegol hyn.

Eich cytundeb

Os byddwch yn cytuno:

- Byddwn yn dweud wrth Lywodraeth Cymru am sicrhau mynediad at y gwasanaethau ychwanegol
- Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth amdanoch chi â'i darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys Microsoft a Google Education, er mwyn gallu sicrhau mynediad at y gwasanaethau ychwanegol

Os na fyddwch yn cytuno, byddwn yn dal i rannu gwybodaeth amdanoch chi/eich plentyn â Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu manylion mewngofnodi diogel ar gyfer platfform Hwb, ond ni fyddwch chi/eich plentyn yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau ychwanegol. Os ydych yn dymuno tynnu'ch caniatâd yn ôl, cysylltwch â Dr Llinos Jones.